

Cylchlythyr yr Eglwys Fethodistaidd Sul Gweithredu dros Blant 2023

Action for Children

Gweithredu dros Blant

# Tyfu a ffynnu gyda'n gilydd

## Annwyl gyfeillion,

Rydym am ddechrau drwy ddweud diolch yn fawr i chi am barhau i'n cefnogi. Mae pawb ohonom wedi profi newid mawr dros y blynyddoedd diwethaf, ond rydych chi wedi aros yn deulu estynedig hael, caredig a chefnogol i ni – ac rydym yn wir ddiolchgar am hynny. Gallwch ddarllen am rai o blith y nifer mawr o weithgareddau codi arian ardderchog a gynhaliwyd gennych chi yn yr adran Ein Sêr Methodistaidd.

Ers i'r ddwy ohonom ddechrau yn ein rolau, mae ein hymgyrch Secret Santa wedi codi'r swm anhygoel o £1.6 miliwn – ein blwyddyn fwyaf llwyddiannus yn yr ymgyrch hyd yn hyn. Bydd y cyfanswm hwn yn helpu i dalu am y gwaith hollbwysig rydym yn ei ddarparu ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd ledled y DU.

Ym mis Chwefror, roeddem wedi rhoi sylw arbennig i'n cefnogwyr, gwirfoddolwyr, eiriolwyr a phartneriaid drwy ddweud diolch yn fawr iddynt yn ystod Wythnos Diolch.

Yn yr un mis, cyhoeddwyd ein hadroddiad yn tynnu sylw at y rhwystrau strwythurol y mae teuluoedd yn eu hwynebu wrth gael gwaith, gweithio oriau hirach, a cheisio cael cymorth digonol gan y system nawdd cymdeithasol lle nad yw gweithio'n ddewis ymarferol. Gallwch ddarllen rhagor yn y pecyn hwn.

Diolch i'r rheini sydd wedi rhoi gwybod eu bod heb dderbyn negeseuon digidol gennym. Er mwyn sicrhau ein bod yn rheoli dewisiadau cysylltu holl gefnogwyr Gweithredu dros Blant, gwnaed newidiadau yn y ffordd rydym yn storio ac yn defnyddio'ch manylion cyswllt, ac roedd hyn wedi effeithio ar ein gallu i anfon negeseuon digidol at rai cefnogwyr. O ganlyniad i hyn, mae angen i chi ddiweddaru'ch dewisiadau cysylltu ar ein cyfer ni – gweler yr adran yn y pecyn hwn sy'n egluro sut i wneud hyn.

Mae'r argyfwng costau byw yn effeithio ar bawb, ond mae'r plant mwyaf agored i niwed a'u teuluoedd yn y DU yn wynebu argyfwng ac mae arnynt wir angen ein cymorth.

Felly eleni, bydd Sul Gweithredu dros Blant ar 9 Gorffennaf. Mae cynllunydd wedi'i amgáu i greu gwasanaeth arbennig ar y diwrnod (neu ar unrhyw adeg arall), ac amlinelliad addoli, storïau, ac awgrymiadau am weddïau ac emynau. Gallwch lawrlwytho copïau ychwanegol, fideos ac adnoddau defnyddiol eraill yn: **actionforchildren.uk/faithFR**.

Diolch i chi unwaith eto am gefnogi Gweithredu dros Blant ym mhob math o ffyrdd. Wrth i'r tywydd gynhesu, byddem wrth ein bodd yn eich helpu i gynllunio gweithgareddau codi arian dros yr haf. Gallwn rannu canllaw â chi, yn llawn cyngor a syniadau, neu gael sgwrs am awgrymiadau gyda chi er mwyn rhoi cychwyn ar bethau. Cysylltwch â'r swyddog codi arian lleol i gael rhagor o wybodaeth.

All the very best,

**Katie Cartwright**
Pennaeth Codi Arian Rhanbarthol

**Anna McCrum**
Arweinydd Partneriaethau Ffydd



# Sul Gweithredu dros Blant eleni

mywydau plant, pobl ifanc a'u teuluoedd o ganlyniad i fyw mewn amgylchedd gofalgar, cefnogol a chariadus. Eleni, mae Sul Gweithredu dros Blant yn canolbwyntio ar y cysylltiadau hyn sydd rhyngom fel bodau dynol ac ar orchymyn Duw i ni garu ein gilydd fel y mae Duw yn ein caru ni. Yn y cyfnod hwn, sy'n llawn heriau i gynifer o deuluoedd, rydym yn gobeithio y bydd yr adnodd hwn yn ategu galwad yr Eglwys Fethodistaidd i ni ymateb fel pobl ffydd i gariad Duw drwy addoli a chenhadu.

Mae'r adnoddau hyn ar ffurf debyg i'r rheini a rannwyd mewn blynyddoedd blaenorol, gan eu bod wedi'u paratoi i ni gan Roots on the Web. Gobeithiwn y bydd y deunydd addoli yn apelio at gynulleidfaoedd o bob oed a maint, ac y bydd yn helpu i ddyfnhau ein cysylltiadau â'n cymuned Fethodistaidd.

Eleni rydym wedi creu dwy fideo fer i'w chwarae yn ystod gwasanaeth. Mae un yn ymwneud â chartref Tan y Bryn lle cynigir plentyndod diogel a hapus i blant sydd wedi profi trawma. Mae'r llall yn un gan Terri, mam sydd wedi elwa o gymryd rhan yn ein dosbarthiadau rhianta a derbyn cymorth. Mae'r storïau hyn hefyd yn codi yn y deunydd addoli. Rydym yn gobeithio y bydd y storïau calonogol hyn yn helpu i roi cyfeiriad i'ch addoli.

Diolch i chi am eich gweddïau, am barhau â'ch ymrwymiad, ac am ein helpu i roi plentyndod diogel a hapus i ragor o blant a phobl ifanc.

## 1.95 miliwn o blant y nifer a allai fod wedi'u dal mewn tlodi oherwydd rhwystrau i weithio– ein hymchwil ddiweddaraf

Ynghanol yr argyfwng costau byw gwaethaf ers degawdau, rydym yn gweithio'n galed i ymgyrchu dros gael cymorth wedi'i dargedu ar gyfer y plant mwyaf agored i niwed, ac i dynnu sylw at y rhwystrau mawr i weithio a wynebir gan filiynau o deuluoedd.

Ym mis Chwefror, cyhoeddwyd ein hadroddiad pwysig, All Worked Out, am y rhwystrau strwythurol y mae teuluoedd yn eu hwynebu wrth gael gwaith, gweithio oriau hirach, a cheisio cael cymorth digonol gan y system nawdd cymdeithasol lle nad yw gweithio'n ddewis ymarferol.

Mae ein hymchwil yn dangos bod 1.95 miliwn o blant yn y DU a allai fod wedi'u dal mewn tlodi a chaledi am fod eu rhieni'n wynebu un neu ragor o rwystrau mawr i weithio, neu i'w gallu i ysgwyddo gwaith ychwanegol. Mae nifer mawr o'r plant hyn yn byw ar aelwydydd sy'n wynebu nifer o rwystrau gwahanol i weithio.

I nifer mawr o deuluoedd, nid yw gwaith bob amser yn cynnig ffordd syml i godi allan o dlodi a chaledi. Mae un ym mhob chwech o weithwyr yn ennill llai na'r Cyflog Byw Gwirioneddol ac mae'r diwygiadau mewn budd-daliadau wedi tueddu i wthio pobl at swyddi rhan-amser, isel eu tâl heb obaith o gamu ymlaen. Mae ein ffigurau'n dangos bod 440,000 o blant yn byw mewn tlodi lle mae'r rhiant/rhieni eisoes yn gweithio'n amser llawn. Oherwydd hyn, ynghyd â'r cynnydd mewn costau byw, mae rhai teuluoedd wedi cyrraedd pen eu tennyn.

Ymysg yr heriau eraill y mae cost ac argaeledd gofal plant, a heriau penodol sy'n wynebu rhieni sengl, rhieni sy'n ofalwyr a phobl sy'n byw gydag anabledd.

Rydym wedi datblygu offeryn digidol effeithiol sy'n rhoi darlun o lefelau tlodi plant a chaledi ariannol yn eich ardal. Gallwch ddefnyddio'r offeryn hwn i hybu ymwybyddiaeth o lefel tlodi plant yn eich ardal drwy gysylltu â'ch cynrychiolwyr seneddol.

# Ein sêr Methodistaidd

## Dyma rai enghreifftiau o'ch cyflawniadau rhyfeddol wrth godi arian.

Diolch yn fawr i **Eglwys Fethodistaidd Northallerton** a haelioni eu cymuned dros y Nadolig, ar ôl codi £1,379 drwy ganu carolau.



Mae **Eglwys Fethodistaidd Norton** wedi cyfrannu rhodd garedig o £993 o Flychau Casglu Cartref. Diolch yn fawr i chi – mae'n swm y gallwch ymfalchïo ynddo!

Diolch i chi **Michael Bale**, sydd wedi ymddeol o fod yn gadeirydd **Grŵp Cymorth Cas-gwent**. Dathlodd Michael ei ben blwydd yn 90 oed yn ddiweddar a gofynnodd i'w ffrindiau a'i deulu gyfrannu at waith Gweithredu dros Blant, a hynny wedi arwain at rodd o £450. **Allyson Barnes** yw cadeirydd newydd Grŵp Cymorth Cas-gwent – croeso Allyson.

Diolch yn arbennig i **Rosemary Hamley** yn **Eglwys Fethodistaidd Callington**. Nid yn unig y mae Rosemary yn ein cynrychioli yn ei chymuned drwy roi gwybod am effaith ein gwaith drwy gyflwyno sgyrsiau, ond mae hefyd wedi codi bron £5,000 eleni drwy wahanol ddigwyddiadau a gweithgareddau codi arian, yn cynnwys gwasanaeth Cristingl a Blychau Casglu Cartref.

Roedd **Pat Nott**, sy'n aelod o **Eglwys Fethodistaidd Wells Green**, wedi cynnal bore coffi dros y Pasg, lle gwahoddwyd y gymuned i alw heibio i stondin moes a phryn a mwynhau cwpanaid o de neu goffi a bynsen groes yng ngwres yr haul! Rhaid sôn yn arbennig am Doreen a bobodd deisen Rawys i'w rafflo. Roedd y grŵp Enfys lleol hefyd wedi cynnal stondin grefftau hyfryd, a gyfrannodd at y cyfanswm o £590!

Mae **Grŵp Cymorth Methodistiaid Porthcawl** yn cynnal arwerthiant hen drugareddau yn eu heglwys bob penwythnos i godi arian at waith Gweithredu dros Blant a'r eglwys. Diolch i chi **Hilary Davies**, ac i bawb sy'n rhoi cymaint o'u hamser i weithio ar y stondin.

Diolch yn fawr iawn i **Michael Rumsey** yn **Eglwys Fethodistaidd Box** yn Wiltshire, a gynhaliodd 'emynathon' noddedig o ddydd Iau Cablyd, dros benwythnos y Pasg a gorffen ar ddydd Llun y Pasg. Ym mlwyddyn ei Jiwbilî Ddeimwnt ar ôl chwarae'r organ am 60 mlynedd yn eglwysi Box, bydd Michael wedi codi mwy na £1,500, gan roi'r gair ar led am waith Gweithredu dros Blant yr un pryd.



## Arolwg Cefnogwyr Blynyddol 2023 – rhowch eich barn!

Y flwyddyn ddiwethaf, roedd nifer mawr ohonoch wedi ymateb i'n Harolwg Cefnogwyr Blynyddol. Roeddech wedi rhoi'ch barn am feysydd gwaith allweddol fel gweithgareddau codi arian, dewisiadau ar gyfer cyfathrebu a'ch teimladau am y materion pwysig sy'n wynebu'r plant a theuluoedd yr ydym yn eu cynorthwyo. Roeddem wedi darparu'r ymatebion hyn i bob un o'n timau i helpu i lywio ein gwaith.

Mae'r flwyddyn hon wedi bod yn un anodd eto i'r plant, pobl ifanc a theuluoedd agored i niwed a gynorthwywn. Nawr, wrth i ni weithio i'w cynorthwyo, mae'n wirioneddol bwysig i ni glywed eich barn.

Bydd yn cymryd tua 15 munud i gwblhau'r arolwg ar-lein yn **actionforchildren.uk/annualsurvey**

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am yr Arolwg Blynyddol, holwch eich cysylltydd rhanbarthol neu'r tîm Gwasanaethau Cefnogwyr.

# Arweinydd Methodistaidd

## yn ymweld â gwasanaethau Gweithredu dros Blant



Roeddem wrth ein bodd yn croesawu'r Parchedig Graham Thompson, Llywydd y Gynhadledd Fethodistaidd i'n Gwasanaeth Teuluoedd a Phlant yn eu Blynyddoedd Cynnar (ECFS) yn Norwich. Mae ECFS yn darparu gwybodaeth, cymorth a chyngor i deuluoedd sydd â phlant ifanc ledled Norfolk.

Caiff ei ariannu gan Gyngor Sir Norfolk, wrth weithio mewn partneriaeth â Gweithredu dros Blant. Darperir y gwasanaeth ECFS mewn mannau fel llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol ac ysgolion, yn ogystal â'r 15 o ganolfannau ECFS ledled y sir.

Emma Broom, Rheolwr Gwasanaethau Ardal Dinas a De Norfolk, oedd trefnydd yr ymweliad. Clywodd Graham am heriau'r argyfwng costau byw i deuluoedd yn Norfolk ac am y ffordd y mae gwasanaethau wedi addasu i gynorthwyo teuluoedd agored i niwed.

Meddai Graham, yn dilyn yr ymweliad,

***"Dylen ni lawenhau ac ymfalchïo yng ngwaith Gweithredu dros Blant – mae'r plentyn hwn i'r Eglwys Fethodistaidd wedi tyfu ac mae bellach yn byw'n annibynnol ac yn gwasanaethu eraill – wrth i'r elusen geisio cynorthwyo'r rheini sy'n cael bywyd yn fwyaf anodd."***

# Cyfrannwch a gwnewch wahaniaeth

Ar hyn o bryd, mae 4.2 miliwn o blant yn byw mewn tlodi yn y DU, sef 29% o'r holl blant. Bydd angen i nifer mawr o'r plant hyn a'u teuluoedd gael cymorth gennym ni.

Rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y teuluoedd sy'n profi effaith yr argyfwng costau byw, yn ei chael yn anodd fforddio hyd yn oed y pethau hanfodol fel gwres, bwyd a dillad. Mae'n anodd canolbwyntio ar fod yn blentyn os ydych chi'n poeni o ble y daw'r pryd bwyd nesaf.

Byddai rhodd gennych chi yn gallu ein helpu i gynnig cymorth hanfodol i deuluoedd sydd wedi dod i ben eu tennyn. Gallai ein helpu i roi bwyd a chartref cynnes iddynt, a dillad sy'n eu ffitio. Gallai ein helpu i fod wrth law i gwrdd ag anghenion rhagor o blant.

Gofynnwn i chi ystyried rhoi swm y gallwch ei fforddio, i helpu i roi plentyndod diogel a hapus i fwy o blant yn y DU.

Cyfrannwch yma: **actionforchildren.org.uk/afcsunday**

Gweithredu dros Blant, wedi'i gofrestru yn 3 The Boulevard, Ascot Road, Watford WD18 8AG a'i gofrestru'n gwmni elusennol cyfyngedig drwy warant yng Nghymru a Lloegr dan y rhif 4764232. Rhifau elusen gofrestredig 1097940/SC038092. © Gweithredu dros Blant 2023. 1902.

Registered with FUNDRAISING REGULATOR